



27.01.2021

Elin Lenny  
Cyswllt Contact  
Ffôn Phone 0330 588 0506

---

## Erthygl i'r Wasg Press Release

---

# Gwyneth Keyworth yn chwarae â thân mewn drama newydd

Ar ôl cyfnod hir heb ddramâu newydd, bydd y misoedd nesaf yn fwrlwm o gyfresi ffres a gafaelgar ar S4C.

Y cyntaf i'r sgrin ar nos Fercher 10 Chwefror, yw **Fflam**, cyfres gyfoes a gwahanol sy'n ymdrin ag angerdd a galar wrth godi'r cwestiwn a yw'n hawdd cynnau tân ar hen aelwyd?

Yr actores o Aberystwyth, Gwyneth Keyworth (Hidden/Craith, Black Mirror, The Crown, Game of Thrones) sy'n chwarae'r prif gymeriad, Noni.

Mae bywyd yn llawn gobaith iddi hi a'i chariad Deniz (Memet Ali Alabora) wrth atgyweirio eu fferm fechan. Mae ei ffrind gorau, Malan (Mali Ann Rees) a'i gwraig Ekin (Pinar Ogun) - chwaer Deniz, hefyd yn edrych ymlaen at y dyfodol wrth i Deniz gytuno i helpu gwireddu eu breuddwyd o gael plentyn trwy fod yn rhoddwr iddynt.

Er bod bywyd yn ymddangos yn fêl i gyd, caiff y cyfan ei fygwth pan ddaw Beds (Richard Harrington) i fyd Noni ac atgyfodi ysbryd ei gŵr Tim, a fu farw mewn tân erchyll.

Meddai Gwyneth; "Mi wnes i fwynhau chwarae Noni am ei bod hi'n gymeriad cymhleth. Er ei bod hi'n trio gwneud y peth iawn, mae galar y gorffennol yn dal i effeithio ar ei ymddygiad a'i pherthnasau yn y presennol.

"Er mai hi eu hun yw ei phroblem fwyaf, ti bron yn deall pam mae hi'n gwneud pethau dyle hi ddim. Mae bron pawb yn gallu uniaethu gyda sut mae colled yn gallu gwneud i ti ymddwyn yn wahanol. Ydi, mae hi'n ddewr, yn ystyfnig ac mae hi'n gwneud beth mae hi moyn, ond mae pobl yn dal i gymryd mantais. Dyw hi ddim yn hollol ddiniwed chwaith."

Yn ogystal â chast arbennig, mae Fflam yn cynnig ffordd newydd o wyllo. Ar ôl i'r bennod gyntaf ddarlledu bydd y chwe phennod hanner awr o hyd ar gael fel bocs set ar Clic.

"Mewn cyfnod pan mae'r byd go iawn yn eitha *scary*, rwy'n credu bydd Fflam yn gyfle i ddianc i fyd arall am hanner awr, byd bach *bizarre* Noni. Dwi'n caru binjo, yn enwedig yn ystod cyfnod clo, felly byddai'n dewis gwyllo'r gyfres i gyd gyda'i gilydd. Ond wedyn mae pobl fel Mam a Dad yn mwynhau eistedd lawr ar bwynt penodol pob wythnos i wyllo rhywbeth. Yn sicr, mi fysa Noni yn dweud wrthy ch chi am wneud be chi eisiau - dyna fysa hi yn ei wneud!"

Pa bynnag ffordd y penderfynwch wyllo, mae'r ddrama danllyd yn siŵr o gipio eich dychymyg.

**Fflam**  
**Nos Fercher, 10 Chwefror am 9.00**  
**Isdeitlau Saesneg**



**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**  
**Cynhyrchiad Vox Pictures ar gyfer S4C**

### **Nodiadau i olygyddion**

- Mae **Fflam** yn addasiad o stori wreiddiol gan Gwenno Hughes – gydag Pip Broughton a Catrin Evans, roedd Gwenno yn rhan o'r tîm o awduron sydd wedi sgriptio'r ddrama.
- Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg y ffilmwyd y ddrama a gynhyrchwyd gan Vox Pictures.



27.01.2021

Elin Lenny  
Cyswllt Contact  
Ffôn Phone  
0330 588 0506

---

## Erthygl i'r Wasg Press Release

---

# Gwyneth Keyworth plays with fire in sizzling new drama

After a long period of being unable to show original drama, the coming months will see a flurry of fresh and compelling series on S4C.

First to air on Wednesday 10 February, is **Fflam**, a contemporary story of passion and grief that raises the question of whether rekindling an old flame will result in fingers being burnt?

Aberystwyth born actress Gwyneth Keyworth (Hidden/Craith, Black Mirror, The Crown, Game of Thrones) plays the lead character, Noni.

Life is full of hope for her and boyfriend Deniz (Memet Ali Alabora) as they repair their small farm. Her best friend, Malan (Mali Ann Rees) and her wife Ekin (Pinar Ogun) - Deniz's sister, are also looking forward to the future as Deniz agrees to help realise their dream of having a child by being their donor.

Although life seems sweet, everything is under threat when Beds (Richard Harrington) comes into Noni's life, resurrecting the ghost of her husband Tim, who died in a horrific fire.

"I enjoyed playing Noni because she is such a complex character. Although she tries to do the right thing, the grief of the past still affects her behaviour and relationships in the here and now," said Gwyneth.

"Even though her biggest problem is herself, you almost understand why she does things she shouldn't. Almost everyone can identify with how loss can make you act differently. Yes, she is brave, stubborn and does what she wants, but people still take advantage. She's not completely innocent either."

As well as a stellar cast, Fflam offers a new way of watching. As soon as the first episode airs, all six half hour episodes will be available as a set box on S4C Clic.

"At a time when the real world is quite scary, I think Fflam will be a chance to enter Noni's bizarre little world and escape reality for half an hour. I love a binge watch, especially during lock-down, so that's how I'll choose to watch. But then people like my Mum and Dad enjoy sitting down to watch at a certain time every week. Certainly, Noni would tell you to just do what you want - that's what she always does!"

Whichever way you decide to watch, this fiery drama is sure to capture your imagination.

**Fflam**  
**Wednesday 10 February, 9.00**



**English subtitles available**

**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**

**A Vox Pictures production for S4C**

**Note to editors**

- Fflam is an adaptation of an original story by Gwenno Hughes - Gwenno was part of the team of writers who scripted the drama, alongside Pip Broughton and Catrin Evans.
- The drama was filmed in Cardiff and the Vale of Glamorgan and produced by Vox Pictures.